# Siarad gyda fi

## Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC): Cynllun Cyflawni

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Fersiwn gymunedol

# Helo

Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w dyfodol. Mae hynny'n cynnwys datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer lles a dysgu. Hebddynt, gall plant wynebu heriau ac anghydraddoldebau gydol oes.

## Am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau iaith heb lawer o broblemau. Maen nhw'n gwneud hyn drwy chwarae a threulio amser gyda theulu a phobl eraill yn eu bywydau. Mae angen mwy o gymorth ar rai plant:

**Siaradwyr hwyr** — Plant rhwng 18 a 35 mis oed sy'n dechrau siarad ar gyfradd arafach nag eraill sydd yr un oedran.

**Ymddangosiad iaith hwyr (LLE)** — Plant sy'n hwyr i ddeall a defnyddio sgiliau iaith.

**Anhwylder Iaith Datblygiadol (DLD)** — Plant sydd ag anawsterau iaith sy'n parhau y tu hwnt i 4 mlwydd oed.



**Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn nodi sut rydym am gefnogi pob plentyn i ddatblygu'r sgiliau hyn.**

# Ysgrifennu'r cynllun

Roeddem am archwilio ffyrdd o wella'r cymorth mae plant yn ei gael ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Felly, buom yn siarad gyda:

- Therapyddion Iaith a Lleferydd
- gweithwyr proffesiynol o bob rhan o wasanaethau gofal plant, addysg ac iechyd
- teuluoedd.

Cymerodd
**158**
o bobl ran.

Helpodd y syniadau a'r adborth ni i ddatblygu'r cynllun hwn.

## Mae'r cynllun hwn yn gweithio gyda chyfreithiau a chynlluniau eraill ar gyfer Cymru:

- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** — Mae hwn yn nodi hawl pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** — Mae hwn yn gofyn i wasanaethau gydweithio i gefnogi anghenion plant.
- **Ffyniant i Bawb** — Mae'r blynyddoedd cynnar yn un o bum maes blaenoriaeth hwn.
- **Cymru Iachach** — Dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a lles yw'r cynllun sy'n canolbwyntio ar atal.



# Ynglŷn â'r cynllun

## Ein nodau:

- Rydym am wneud pobl yn ymwybodol o bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Rydym am sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir yn gyflym, waeth ble maen nhw'n byw yng Nghymru.

Mae'r cynllun hwn ar gyfer:

- teuluoedd â phlant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed
- pob plentyn ledled Cymru (nid ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig)
- pobl sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed.

Nid yw'r cynllun hwn yn ymdrin ag anghenion penodol:

- plant 5 mlwydd oed a throsodd
- plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- plant ag anhwylderau lleferydd neu iaith penodol fel atal dweud.

### COVID-19

Mae'r pandemig coronafeirws wedi dod â llawer o heriau i deuluoedd. Mae llawer o wasanaethau wedi'u rhewi, eu hatal neu eu newid. Gallai'r newidiadau hyn effeithio ar ddatblygiad plant ifanc. Nod y cynllun hwn yw dod o hyd i'r ffyrdd gorau o helpu pob plentyn a theulu.



**Mae'r cynllun hwn yn cynnwys 5 amcan**

## 1 Codi ymwybyddiaeth

Rydym am i rieni a gofalwyr ddeall pa mor bwysig yw siarad â'u plant a chwarae â nhw.

**Cam Gweithredu**

**Byddwn yn hyrwyddo pa mor bwysig yw sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru.**

Byddwn ni:

- yn cyflwyno ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ar sut mae plant yn datblygu sgiliau ar wahanol oedrannau a sut y gallwn ni i gyd helpu plant i ddysgu'r sgiliau hyn
- yn ychwanegu gwybodaeth iaith lleferydd a chyfathrebu at yr ymgyrch **Magu Plant: Rhowch Amser Iddo**
- yn annog Ymwelwyr Iechyd i ganolbwyntio mwy ar sgiliau iaith yn ystod yr ymweliad iechyd 15 mis
- yn defnyddio'r ymgyrch **Amser i Siarad, Chwarae a Gwrando** i annog teuluoedd i siarad, chwarae a gwrando mwy ar eu plant
- yn defnyddio **Cymraeg i Blant** i helpu teuluoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg eu plentyn
- yn cynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ein **Bwndeli Babanod** newydd.

Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu yn:

- yr ymgyrch **1000 Diwrnod Cyntaf**
- yr holl wybodaeth ac adnoddau sy'n cael eu rhoi i rieni.




Mae gan y BBC brosiect 5 mlynedd gwych o'r enw **Tiny Happy People** bbc.co.uk/tiny-happy-people. Mae nifer o gymunedau Cymru yn ymwneud â datblygu a threialu'r adnoddau hyn.



**Canlyniad:**
**Mae pawb yn deall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed.**

## 2 Gwella'r ffordd rydyn ni'n gwirio am anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae gan wahanol rannau o Gymru ffyrdd gwahanol o wirio am anawsterau. Mae rhai ohonynt yn gweithio'n well nag eraill. Rydym am edrych ar yr holl dystiolaeth, gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a datblygu un llwybr sgrinio clir ledled Cymru.

**Cam Gweithredu**

**Byddwn yn dod o hyd i'r llwybr sgrinio gorau ar gyfer plant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed yng Nghymru.**

Byddwn ni:

- yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
- yn adolygu'r holl systemau sgrinio iaith cynnar sy'n cael eu defnydd yng Nghymru a gwledydd eraill
- yn casglu'r holl dystiolaeth ac ymchwil
- yn penderfynu ar y system orau
- yn sicrhau ei fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- yn sicrhau bod pawb yn dilyn y llwybr wrth wirio am anawsterau.



**Canlyniad:**

Mae un llwybr sgrinio clir i wirio am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed ledled Cymru.

## 3 Defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio

Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu effeithio ar feysydd eraill fel dysgu neu les oni bai bod plant yn cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn. Rhaid i'n systemau a'n rhaglenni cymorth gefnogi teuluoedd ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

**Cam Gweithredu**
**Byddwn yn sicrhau bod y systemau a'r rhaglenni cywir ar waith.**

Byddwn ni:

- yn edrych ar y cysylltiadau rhwng datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ac iechyd meddwl
- yn edrych ar dystiolaeth ynghylch magu plant cadarnhaol
- yn casglu gwybodaeth ac ymchwil i'n helpu i wneud penderfyniadau
- yn gweithio gyda phrifysgolion a gweithwyr proffesiynol i adolygu dulliau newydd
- yn datblygu adnoddau sy'n cysylltu â'r ymgyrch genedlaethol **'Siarad gyda fi'**.



**Canlyniad:**
Mae gan Gymru'r systemau cywir ar waith i gefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed.

## 4 Hyfforddi a datblygu'r gweithlu

Mae angen i bawb wybod sut i wirio am anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu a bod yn hyderus ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud i helpu. Mae llawer o wahanol bobl yn gweithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n bwysig eu bod yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

**Cam Gweithredu**
**Byddwn yn sicrhau bod gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt.**

Byddwn ni:

- yn nodi llwybr hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu newydd i bobl sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis oed
- yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i adolygu effaith y cymhwyster **Lefel 4 mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu**
- yn cysylltu'r cynllun hwn â'r fframwaith **Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd** fel bod pawb yn gweithio i'r un nodau
- hyfforddi a datblygu sgiliau pobl sy'n gweithio mewn **lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg**
- yn defnyddio **Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar** i ddatblygu sgiliau pobl sy'n gweithio gyda theuluoedd.
- yn helpu gweithlu **Rhaglen Plant Iach Cymru** i hyrwyddo datblygiad iaith.

Bydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd Cyhoeddus y Blynyddoedd Cynnar yn rhannu arfer gorau ac yn dysgu oddi wrth y naill a'r llall.

Bydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cynnig hyfforddiant i:

- arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru ac arolygwyr Estyn
- dehonglwyr a chyfieithwyr
- gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol a gofalwyr maeth.



**Canlyniad:**
**Bydd pawb sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 4 mlwydd 11 mis yng Nghymru yn cael eu hyfforddi a'u harfogi i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

## 5 Cynnwys y sgiliau hyn yn ein holl bolisïau a chynlluniau ledled Cymru

Mae lleferydd, iaith a chyfathrebu yn rhan fawr o les pawb. Mae angen i holl gynlluniau a pholisïau Llywodraeth Cymru ystyried hyn.

**Cam Gweithredu**
**Byddwn yn adolygu ein holl gynlluniau a pholisïau, cyn belled ag y bo modd, ac yn cynnwys pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

Byddwn ni:

- yn datblygu dull newydd sy'n seiliedig ar chwarae o ddysgu'r sgiliau hyn
- yn cefnogi'r sgiliau hyn yn y cwricwlwm newydd
- yn cynnig arweiniad ar gyfer ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar ar gefnogi sgiliau iaith
- yn sicrhau bod lleoedd sy'n cael **Grant Datblygu Disgyblion** yn cefnogi datblygiad lleferydd ac iaith
- yn sicrhau bod **Gweithio Dros Gymru** yn asesu ac yn atgyfeirio pobl ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- yn sicrhau bod **Twf Swyddi Cymru** yn helpu pobl i oresgyn y rhwystrau hyn
- yn parhau i sicrhau bod troseddwyr ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gallu cyrchu rhaglenni hyfforddi
- yn defnyddio'r dystiolaeth o'r **Glasbrintiau Troseddau Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid** i gamu i mewn yn gynnar a gwirio am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- yn cefnogi teuluoedd drwy **Cymunedau Digidol Cymru: rhaglen Hyder Digidol, Iechyd a Lles**
- parhau i helpu teuluoedd drwy gynllun cyflawni **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**
- gweithio gyda Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i rannu arfer da.



**Canlyniad:**
**Mae'r holl bolisïau a chynlluniau yng Nghymru yn adlewyrchu pwysigrwydd sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

# Symud ymlaen

Bydd buddsoddi yn y cynllun hwn yn helpu plant ledled Cymru i gael y dechrau gorau mewn bywyd a chyrraedd eu nodau.

Bydd grŵp o weithwyr proffesiynol ar Fwrdd y Rhaglen yn gwirio'r cynllun hwn dros y 2 flynedd nesaf. Byddant yn rhoi cyngor clir, argymhellion ac yn helpu gyda chynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Diolch am ddarllen hwn

Gallwch ddarllen y cynllun llawn yma:

llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu

